

Newyddlen Gwasanaethau Anabledd

Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y
Coleg, Bangor.

Ffôn: 01248 383620 / 382032

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Mawrth 2018 - Rhifyn 47

Dydd Gŵyl Ddewi Hapus!

Pa ffordd well i ddathlu nawddsant Cymru na mynd i ymweld â'ch hoff heneb Gymreig am ddim?



Bydd safleoedd, gan gynnwys cestyll Caernarfon, Caerffili a Chydweli yn agor eu drysau i ymwelwyr yn ddi-dâl fel rhan o ddatliadau ein nawddsant, fu farw yn ôl y sôn ar 1 Mawrth 589.

Mae mynediad am ddim i'w safleoedd ar Ddydd Gŵyl Dewi yn rhan o ymdrechion parhaus Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, i ehangu a chyflwyno cynlluniau a mentrau newydd sydd wedi'u hanelu at greu diddordeb, annog cyfranogiad a sicrhau bod mwy o bobl yn dod i safleoedd treftadaeth Cymru.

Yn y rhifyn hwn

Dydd Gŵyl Ddewi Hapus!	1
Yn y rhifyn hwn.....	2
Tîm Dyslecsia Cefnogaeth Arbenigol gyda Sgiliau Astudio	5
Arholiadau - Archebwch eich addasiadau erbyn	6
Myfyrwyr Nursio.....	7
Sensus Access	8
Canolfan Sgiliau Astudio	9
Canolfan Asesu Bangor	10
Gwenud cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl? Gallwn helpu!.....	10
Iechyd Meddwl.....	11
Diwrnod Iechyd Meddwl y Brifysgol - 1 Mawrth.....	12
Wal Fawr Wen	13
Beth yw Dewis Cymru ?	15
Y Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr - Beth sydd ar gael?	15
Yn brin o arian?	16
Bwrsariaeth Gofalwyr	16
Bwrsariaethau Teithiau Maes	17
Cyllid Myfyrwyr 2018/19	17
Swyddfai Tai Myfyrwyr	18
Cyn i chi adael am y Pasg:.....	18
Cyflogadwyedd @ Bangor.....	21
Cyflwyno Jennie, Cyngorydd Myfyrwr Anabl Undeb Bangor 2017/18	22
Neges gan Helen Marchant, Is Lywydd Addysg	23
Neuaddau	24
Campws Byw.....	25
RHIFAU RHADFON in wneud ymholiadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau	28
Wythnos Ymwybyddiaeth Awtisiaeth - 26 Mawrth - 2 Ebrill.....	28
NSS.....	29
Ein Manylion Cyswllt	31

CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO ARBENIGOL UN-I-UN

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

Darperir y gefnogaeth drwy'r flwyddyn, gan diwtoriaid cymwys a chofrestredig sy'n rhan o'r Tîm Dyslecsia mewnol yn y Gwasanaethau Anabledd ym Mhrifysgol Bangor.

Bydd staff croesawus yno bob tro byddwch yn ymweld â'n Derbynfa.



Ystafelloedd unigol un-i-un penodol sy'n darparu lle cyfforddus a chyfrinachol. Mae gan bob ystafell ddwy sgrin gyfrifiadurol, gliniadur (*laptop*) a mynediad at dechnoleg gynorthwyol, digon o le ar ddesg, golau y gellir ei newid er mwyn gwneud yr ystafell yn oleuach neu'n dywyllach, amrywiaeth o gymhorthion dysgu aml-synhwraidd, bwrdd gwyn, ac mae dŵr yfed wedi'i hidlo ar gael gerllaw.

Ystafell aros gyfforddus lle gall myfyrwyr eistedd ar ôl cyrraedd, ac edrych drwy amrywiaeth o daflenni gwaith strategaethau astudio ac adnoddau eraill sy'n cael eu harddangos. Mae'r adnoddau hyn ar gael i fyfyrwyr fynd â nhw gyda nhw fel bo'r angen.



Mae gan diwtoriaid sgiliau i gefnogi myfyrwyr i ymgorffori'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn ystod eu hastudiaethau.

Yn y llun hwn, mae Dylan yn dangos sut i ddefnyddio'r Pen LiveScribe.

Tîm Dyslecsia Cefnogaeth Arbenigol gyda Sgiliau Astudio

Mae cefnogaeth sgiliau astudio arbenigol yn cynnig cyfle i chi weithio un-i-un gyda thiwtor sgiliau astudio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio'n effeithiol.

- Mae gennym diwtoriaid sgiliau astudio arbenigol sy'n arbenigo mewn cynnig cefnogaeth gyda mathemateg, ystadegau a'r Gymraeg.
- Gall eich tiwtor sgiliau astudio eich helpu i werthuso eich cryfderau a'ch dulliau astudio presennol a'ch cefnogi mewn meysydd a all fod yn fwy o her i chi. Byddant yn cyflwyno amrywiaeth o strategaethau i chi i wella eich dysgu, megis:
 - **Sgiliau Rheoli Amser a Threfnu**
 - **Rhifedd:**
 - Cymorth gydag iaith fathemategol.
 - Deall pynciau ariannol a chysyniadau ystadegol.
 - Defnyddio cymhorthion cyfrifiannu, rhaglenni TG a chyfrifianellau.
 - **Sgiliau Darllen Ymchwil ac Academaidd:**
 - Technegau darllen yn effeithlon.
 - Strategaethau ar gyfer dewis gwybodaeth.
 - Technegau crynhoi, gwneud nodiadau a chymryd nodiadau.
 - Defnyddio'r llyfrgell yn effeithiol.
 - **Sgiliau ysgrifennu:**
 - Trefnu a saernio eich syniadau.
 - Saernio dadleuon a mynegi syniadau.
 - Sgiliau sillafu, gramadeg ac atalnodi.
 - Saernio brawddegau a pharagraffau, aralleirio.
 - Sgiliau golygu a phrawf-ddarllen.
 - **Sgiliau cyflwyno.**
 - **Strategaethau adolygu:**
 - Strategaethau dysgu ar gof.
 - Technegau arholiadau.

Cysylltwch â ✉ 121dyslecsia@bangor.ac.uk os hoffech archebu sesiwn.

Arholiadau – Archebwch eich addasiadau erbyn

Cw Ble a phryd gallaf weld yr Amserlenni Arholiadau?

A Mae Amserlen Arholiadau Semester 2 allan.

Gweler:

<https://www.bangor.ac.uk/ar/main/assessment/amserlen-arholiadau/>



Cw Beth yw 'addasiadau rhesymol'?

A Mae 'addasiadau rhesymol' yn drefniadau ar gyfer goroesi neu ostwng rhwystrau sy'n ymwneud ag anabledd a wynebwr gan fyfyrwyr. Mewn arholiadau gall hynny olygu amser ychwanegol; print bras, papurau arholiad lliw neu mewn braille, defnyddio ysgrifennwr neu ddarllenydd.

Cw Sut ydw i'n gwneud yn siwr y bydd fy addasiadau arholiad yn eu lle?

A Dyma'r camau y mae'n **RHAID** i chi eu cymryd:

- Mae angen i chi gael Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (PLSP). Os nad oes gennych un yn barod, bydd angen i chi drafod eich gofynion arholiadau gyda Chynghorwr. Oni bai bod gennym gopi o lythyr meddyg neu ddogfennau priodol eraill ar ffeil, byddwn angen rhyw fath o dystiolaeth o anabledd / cyflwr iechyd hir dymor.
- ebostio: arholiadau@bangor.ac.uk gyda'r manylion isod:
 - Eich enw a'ch rhif myfyriwr.
 - Eich blwyddyn astudio ac enw eich rhaglen radd.
 - Cod modiwl yr arholiad(au) rydych yn eu sefyll, ynghyd â'r dyddiad y byddwch yn eu sefyll.
 - PA RAI o'r addasiadau o'ch PLSP rydych eu hangen ym mhob un o'r arholiadau y byddwch yn eu sefyll.

Unwaith y derbynnir y wybodaeth hon, llenwir Ffurflen Addasu Arholiad a chaiff ei e-bostio atoch fel cadarnhad bod eich addasiadau wedi cael eu gwneud. Rhag ofn y bydd ymholiadau, dylech argraffu'r ffurflen hon a dod â hi gyda chi i bob arholiad.

Fodd bynnag, os hoffech drafod eich trefniadau gydag aelod staff o'r Swyddfa Arholiadau, a fydddech cystal â nodi hynny yn eich e-bost ac fe drefnir apwyntiad i chi.

Y dyddiad cau ar gyfer yr arholiadau yn Ionawr yw dydd Gwener, 6 Ebrill.

PWYSIG: Os byddwch yn methu'r dyddiad (6 Ebrill), ni allwn sicrhau y gallwn wneud yr addasiadau i chi.


Myfyrwyr Nursio

Bydd angen i fyfyrwyr nyrsio sydd angen unrhyw addasiadau adeg arholiadau gysylltu â'r swyddfa arholiadau yn yr Ysgol Nyrsio.

Sensus Access

SensusAccess
alternate media made easy

Gwasanaeth gwych newydd gan Brifysgol Bangor. Mae SensusAccess yn troi bron iawn unrhyw fath o ffeil i fewn fformatiau poblogaidd.



Ar gael o –
<https://www.bangor.ac.uk/library/sensusaccess>

Canolfan Sgiliau Astudio

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

CANOLFAN SGILIAU ASTUDIO EICH HELPU I WNEUD Y GORAU O'CH ASTUDIAETHAU

CADWCH YR AWEN I LIFO

IONAWR – MEHEFIN 2018

18 GWEITHDY RHYNGWEITHIOL I WNEUD EICH YSGRIFENNU YN WELL. NAG ERIOED A HYNNY YN RHAD AC AM DDIM!

Ewch ar-lein i gael rhagor o wybodaeth am y gweithdai ac i archebu eich lle heddiw

bangor.ac.uk/sgiliauastudio

GWASANAETHAU MYFYRWYR
Dyhoeddwyd: Ionawr 2018

Mae'r Ganolfan Sgiliau Astudio wedi llunio dwy raglen o weithdai ar draws Semester 2 i roi cyfle i chi archwilio arferion sy'n helpu i ddatblygu eich dealltwriaeth o ddisgwyliadau academaidd ac i wella ansawdd y gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu. Mae sgwrsio yn ganolog i'n dulliau o ymdrin â thasgau, ac mae'r gweithdai yn seiliedig ar dasgau, sy'n eich galluogi i ddysgu drwy wneud a chwestiynu.

Bwriad y gyfres '**Bod yn Feirniadol**', a gynhelir ar brynhawniau Mercher am 1 o'r gloch, yw darparu sylfaen gadarn ar gyfer ymdrin ag aseiniadau yn y dyfodol, drwy drin a thrafod pynciau megis rheoli eich astudiaethau, defnyddio ffynonellau a dulliau beirniadol o ddarllen ac ysgrifennu, a thrafod ffyrdd o gynhyrchu a threfnu eich syniadau.

Mae'r gyfres '**Traethodau Hir Campus**', a gynhelir ar foreau Iau am 10 o'r gloch ac yna am 1 o'r gloch ar brynhawniau Mercher o Ebrill ymlaen, yn cynnig cyfle ymarferol i ddatblygu eich targedau a'ch cynigion ymchwil, i ystyried dulliau o ymdrin ag adolygu ffynonellau, i lunio crynodeb a rhagarweiniad, i ystyried atebion posib ac i adfyfyrio ar eich cynnydd.

Yn ôl myfyrwyr sydd wedi mynychu gweithdai yn y gorffennol, llwydda'r gweithdai i gynnig ysgogiad a golwg newydd ar bethau, ac roedd myfyrwyr wedi mwynhau'r trafodaethau grŵp, wedi canfod ffyrdd o wella, yn teimlo yn fwy hyderus i fynd i'r afael â thasgau, ac roedd y sgiliau a archwiliwyd yn uniongyrchol berthnasol i'w gwaith cwrs.

Y mathau eraill o gefnogaeth a gynigir gan y Ganolfan Sgiliau Astudio yw **apwyntiadau unigol ar sgiliau ysgrifennu ac astudio** (llenwch y [ffurflen archebu ar-lein](#)), **apwyntiadau a sesiynau galw heibio Mathemateg ac Ystadegau** (archebwch eich apwyntiad [yma](#)), **grwpiau ysgrifennu ymchwil, canllawiau astudio ar-lein** (ewch [yma](#) i'n hadnoddau astudio), a **gweithdai sgiliau ysgrifennu, ymchwil ac arholiadau**. Am ragor o wybodaeth am y gweithdai a sut i archebu eich lle, ewch i'n [gwefan](#).

Canolfan Asesu Bangor

Sgrinio Anffurfiol ar gyfer Gwahaniaethau Dysgu Penodol

Canolfan Asesu Bangor sydd bellach yn gyfrifol am apwyntiadau sgrinio, er mwyn cynnig 'siop un-stop' i fyfyrwyr gael eu hasesu. Gall myfyrwyr fynd i'r un lle i gael asesiad sgrinio anffurfiol, asesiad diagnostig ac apwyntiad anghenion astudio ar gyfer y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl. Mae Gwahaniaethau Dysgu Penodol yn cynnwys llawer o bethau gan gynnwys dyslecsia, dyspracsia, dyscalcwlia, dysgraffia, sensitifrwydd gweledol ac Anhwylder Diffyg Canolbwytio (ADHD neu ADD).

Beth sy'n digwydd mewn apwyntiad sgrinio?

Mae'r apwyntiad sgrinio'n para tua awr a hanner ac mae'n cynnwys cyfweiliad / trafodaeth anffurfiol gyfrinachol a phrofion byr i weld a oes gennych arwyddion o Wahaniaethau Dysgu Penodol. Yn dilyn y sgrinio, gall y sawl sy'n gwneud y sgriniad drafod nodweddion unrhyw un o'r Gwahaniaethau Dysgu Penodol hyn, yn ogystal â rhoi cyngor i'r myfyriwr o ran y camau nesaf.

Os yw'r sgrinio'n dangos arwyddion fod gan fyfyriwr un neu ragor o Wahaniaethau Dysgu Penodol, cynghorir y myfyriwr fel arfer i gael asesiad diagnostig llawn. Mae'r asesiad diagnostig llawn yn cymryd tua tair awr a hanner, ac er ei fod yn costio, mae gostyngiad sylweddol i fyfyrwyr. Does dim cost ar gyfer y sgrinio anffurfiol.

Ar ôl cael asesiad diagnostig llawn, byddai'r myfyriwr yn gymwys i gael cymorth trwy'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, a gellir gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer astudiaethau'r myfyrwyr hefyd.

Ble caf i ragor o wybodaeth?

Os hoffech wybod mwy am wahaniaethau dysgu penodol, ewch i dudalen gwe'r Tîm Dyslecsia: <https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/dyslexia.php.cy>, neu cliciwch ar y dolenni hyn i gael gwybodaeth benodol am: [Dyslecsia](#), [Dyspracsia](#), [Dyscalcwlia](#), [Dysgraffia](#), [Syndrom Sensitifedd Sgotopig](#) a [AD\(H\)D](#).

Os oes gennych chi rai o'r nodweddion sy'n gysylltiedig â Gwahaniaethau Dysgu Penodol ac os hoffech drefnu apwyntiad sgrinio gyda'r Ganolfan Asesu, cysylltwch â ni yn asesiad@bangor.ac.uk ☎01248 383030 neu dewch i'r dderbynfa ar Lawr Cyntaf Neuadd Rathbone (Gwasanaethau Myfyrwyr).

Gwenudd cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl? Gallwn helpu!

Gallwn gefnogi unrhyw fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor gyda'u cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i lenwi'r ffurflen gais, cysylltu â'r adran Cofnodion Myfyrwyr a gallwn ateb y rhan fwyaf o'ch cwestiynau am y broses o wneud cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni assessment@bangor.ac.uk neu ☎01248 383030 neu dewch i'r dderbynfa ar Lawr Cyntaf Neuadd Rathbone (Gwasanaethau Myfyrwyr).

Iechyd Meddwl

Mae Cheryl Parkinson a Fiona Rickard, Ymgynghorwyr Iechyd Meddwl Prifysgol Bangor, wedi ymuno ag Undeb y Myfyrwyr Bangor i gynnig nifer o sesiynau galw i mewn i fyfyrwyr. Y newydd da yw ein bod, fel rhan o'n partneriaeth, wedi cael ystafell o faint da yn union wrth ymyl y Dderbynfa. Mae'r ystafell yn hawdd mynd iddi ac yn rhoi preifatrwydd.

Sesiynau Galw Heibio ar gyngor Iechyd Meddwl

- **Lle:** Pontio, Undeb Myfyrwyr, Lefel 4
- **Pryd:** Dydd Mercher 2yh-4yh dechrau
10 Ionawr - 28 Mawrth 2018
18 Ebrill - 30 Mai 2018



Gallai hyn fod yn addas i chi ...

Os ydych yn pryderu am eich iechyd meddwl.

Os hoffech gael sgwrs gyda Chynghorydd Iechyd Meddwl i drafod eich pryderon?

Os ydych chi eisiau gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael?

Os ydych chi'n teimlo'n fwyfwy pryderus ac yn poeni am hynny?

Os ydych yn colli cwsg oherwydd eich pryder?

Os ydych o dan straen oherwydd arholiadau neu oherwydd eich astudiaethau?

Os ydych yn poeni am ffrind neu am rywun sy'n rhannu tŷ gyda chi?

Os ydych chi yn syml lawn eisiau ychydig o amser i gael eich cefn atoch?

Os ydych wedi ateb "Ie" i unrhyw un o'r uchod, croeso i chi alw heibio.

Diwrnod Iechyd Meddwl y Brifysgol – 1 Mawrth



Mae Diwrnod Iechyd Meddwl y Brifysgol yn ddigwyddiad blynyddol sy'n dod â'r holl gyfranogwyr allweddol ym maes iechyd meddwl myfyrwyr at ei gilydd.

Y thema eleni yw **cymuned**

Os ydych chi'n fyfyrwr, yn aelod o staff cefnogi, yn academydd neu'n uwch arweinydd yn y brifysgol, mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth feithrin cymuned sydd ag agwedd gadarnhaol tuag at iechyd meddwl yn y brifysgol.

Ein gobaiith ydy:

- Gwella ymwybyddiaeth myfyrwyr a staff o'r gefnogaeth sydd ar gael a hyrwyddo ymdeimlad o berthyn.
- Gwella dealltwriaeth myfyrwyr a staff am y cyfraniad y gall yr amgylchedd a'r gymuned ei wneud o ran gofalu am iechyd meddwl myfyrwyr.
- Codi ymwybyddiaeth am yr heriau penodol y mae myfyrwyr yn eu hwynebu wrth geisio cefnogaeth gyda materion iechyd meddwl a dylanwadu ar sefydliadau addysgol a darparwyr iechyd i gydweithio fel bod pawb mewn addysg uwch yn cael cyfle i ffynnu.

*Mae pawb yn meddwl fy
mod yn gwneud yn iawn,
ond dydw i ddim*

**Everyone thinks I'm
doing ok, but I'm not**



*Does dim rhaid i chi ddelio â theimladau neu sefyllfaoedd anodd ar eich pen eich hun.
You don't have to deal with difficult feelings or situations alone.*

*Am ddim i fyfyrwyr Prifysgol Bangor
Free to students at Bangor University*

*Ewch i bigwhitewall.com i ymuno â'n cymuned gefnogol, ddiennw heddiw.
Go to bigwhitewall.com to join our supportive and anonymous community today.*

*Ar-lein 24/7
Available online 24/7*



Bellach gall myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor sy'n profi cyfnod anodd gael cymorth ar-lein am ddim trwy'r [Wal Fawr Wen](#). Os ydych yn cael trafferth cysgu, yn teimlo'n isel, dan straen neu'n methu ymdopi, gall y Wal Fawr Wen eich helpu i gael cymorth, i adennill rheolaeth a theimlo'n well.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth proffesiynol a chymorth gan gyfoedion, ar-lein, 24/7, gyda chynghorwyr hyfforddedig. Mae'r Wal Fawr Wen yn darparu lle diogel ar-lein i gael bwrw eich bol, trafod sut rydych yn teimlo a dysgu sut i wella a rheoli eich iechyd a'ch lles meddyliol.

Mae'r Wal Fawr Wen yn **gyfan gwbl ddiennw**, felly ni fydd neb yn gwybod eich bod wedi dewis ei defnyddio oni bai eich bod chi'n dweud!

Mae mwy na thri chwarter yr aelodau'n teimlo'n well ar ôl defnyddio'r gwasanaeth ac mae bron i 90% yn defnyddio'r Wal Fawr Wen rhwng 5pm a 9am y bore wedyn. Gallwch gael cefnogaeth trwy'r gwasanaeth ar unrhyw adeg ddydd neu nos, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn!

I ymuno â chymuned gefnogol y Wal Fawr Wen ar-lein, ewch i bigwhitewall.com a chofrestru gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost prifysgol. Yna fe gewch ddewis enw defnyddiwr i'w ddefnyddio ar y Wal Fawr Wen.



Beth yw Dewis Cymru ?

Dewis Cymru yw Y man ar gyfer gwybodaeth lles yng Ngymru.

Mae gennym gwybodaeth sy'n gallu'ch helpu i feddwl am beth sy'n bwysig i chi, yn ogystal â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol sy'n gallu helpu!

Am fwy o wybodaeth ewch i <https://www.dewis.wales/>



Dewis Cymru

Cael dewis a chymryd rheolaeth

Y Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr - Beth sydd ar gael?

- Gweithdai Magi Gwytnwch ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd, yn delio â straen, hwyliau a phryder isel;
- Gweithdai MiFedai ar gael i helpu gyda materion fwy penodol i fywyd myfyriwr;
- Ymwybyddiath Ofalgar—sesiynau galw mewn ar gael bob prynhawn dydd Mercher am 4.00yh yn Ystafell Cyfarfod yr Anecs, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg;
- Therapi Grŵp ar gael drwy gais neu gyfeiriad;
- Sesiynau unigol ar gael hefyd drwy gysylltu â'r gwasanaeth.

Gwybodaeth pellach ar gael:

<https://www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/index.php.cy>

neu dros ffon ☎ 01248 388520 neu drwy ✉ i cynghori@bangor.ac.uk



Yn brin o arian?

Diben y Gronfa Galedi yw rhoi cymorth i fyfyrwyr sy'n wynebu argyfwng ariannol annisgwyl neu sydd angen cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer costau neilltuol na ddarperir ar eu cyfer o ffynonellau cyllidol statudol yn barod.

Rhaid i unrhyw fyfyrwr sy'n dymuno gwneud cais lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais gyda'r holl ddogfennau perthnasol i'r Uned Cefnogaeth Ariannol, Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr, Neuadd Rathbone.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Uned Cefnogaeth Ariannol ar:

☎ 01248 383566 / 383637 neu
✉ cymorthariannol@bangor.ac.uk

<http://www.bangor.ac.uk/student-services/money-advice>



Bwrsariaeth Gofalwyr

Ym Mhrifysgol Bangor, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ofalu am ein myfyrwyr a'u cefnogi. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol y gallai gofalu fod â goblygiadau ariannol, gyda myfyrwyr yn cael costau teithio uwch, neu'n canfod na allent weithio'n rhan-amser mor rhwydd i ategu eu cyllid myfyrwyr.

I helpu i ysgafnhau ychydig o'r pryderon ariannol hyn, mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaeth flynyddol i fyfyrwyr sy'n ofalwyr, o hyd at £1,000 o Gronfa Galedi'r Brifysgol.

Diffinnir gofalwr fel a ganlyn: *Gofalwr yw unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu berthynas sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, yn methu ag ymdopi heb eu cefnogaeth - Carers Trust.*

(Sylwch y byddai'r dyletswyddau hyn yn ychwanegol at y cyfrifoldebau gofalu arferol fyddai gan riant dros blentyn dibynnol.)

Er mwyn gwneud cais, galwch heibio'r Uned Cymorth Ariannol, neu e-bostiwch i gael ffurflen gais. Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi yn ôl gyda thystiolaeth gan unigolyn proffesiynol, sy'n ymwybodol o sefyllfa'r teulu a'ch cyfrifoldeb gofalu chi. Os oeddech chi'n arfer derbyn Lwfans Gofalwyr hefyd, bydd arnom angen prawf gan yr Adran Waith a Phensiynau bod hwn wedi dod i ben bellach.

Os ydych chi'n ofalwyr sy'n derbyn cyflog am eich dyletswyddau gofalu, neu'n derbyn Lwfans Gofalwyr, mae'n ddrwg gennym orfod dweud nad ydych yn gymwys am y fwrsariaeth hon.

Bwrsariaethau Teithiau Maes

Mae ysgolion academaidd yn trefnu teithiau maes i gyfoethogi profiad dysgu israddedigion. Pwrpas y fwrsariaeth hon yw annog rhai i gymryd rhan mewn teithiau maes, ac i helpu'n arbennig y myfyrwyr hynny a allai, fel arall, gael eu heithrio oherwydd eu sefyllfa ariannol eu hunain.

Mae'r Bwrsariaethau Maes ar gael i israddedigion y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, ac incwm cartref trethadwy myfyriwr sy'n pennu a ydynt yn gymwys ai peidio.

- Incwm cartref trethadwy o dan £40,000 = 40% oddi ar gost y daith
- Incwm cartref trethadwy rhwng £40,000 a £50,000 = 30% oddi ar gost y daith.

I wneud cais, e-bostiwch moneysupport@bangor.ac.uk am ffurflen gais. Dylid anfon neu e-bostio'r ffurflen wedi'i llenwi i'r Uned Cymorth Ariannol gyda llythyr gan yr Ysgol Academaidd yn cadarnhau eich bod yn mynd ar y daith.

Caiff yr arian ei dalu fel rheol wedyn yn uniongyrchol i'r Ysgol Academaidd ar ran y myfyriwr.

Cyllid Myfyrwyr 2018/19

Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan ddylai myfyrwyr israddedig fod yn gwneud cais arall am gyllid myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Bydd y cyfleusterau Cyllid Myfyrwyr ar gael yn fuan i fyfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau allu ailymgeisio am gyllid ychwanegol. Rhaid i'ch cais ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf gael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau - **Dydd Gwener 22 Mehefin 2018**.

- Myfyrwyr sy'n dod o **Gymru**: lawrlwythwch ffurflen gais PR1 neu gwnewch gais eto ar-lein yn: www.studentfinancewales.co.uk ond nid cyn **Mawrth 2018**.
- Myfyrwyr sy'n dod o **Loegr**: lawrlwythwch ffurflen gais PR1 neu gwnewch gais eto ar-lein YN AWR yn www.gov.uk/apply-for-student-finance
- Myfyrwyr sy'n dod o **Ogledd Iwerddon**: lawrlwythwch PR1 neu gwnewch gais eto ar-lein yn fuan yn: www.studentfinancenl.co.uk

Swyddfai Tai Myfyrwyr

Chwilio am rywle i fyw'r flwyddyn nesaf?



Mae hen ddigon o lefydd ar gyfer **grwpiau** neu **unigolion** i fyw yn y sector llogi breifat ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd felly does dim angen pryderu os nad ydych chi wedi dechrau chwilio eto, neu os nad ydych chi wedi gweld rhywle addas.

Cynghorwn ni chi i beidio arwyddo cytuned tenantiaeth/contract nes i chi weld/ymweld â'r adeilad hwnnw a gwneud yn siŵr ei fod yn addas ar gyfer eich anghenion.

Cofiwch, os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â chael hyd i rywle i fyw ar gyfer y flwyddyn nesaf, gallwch gysylltu â chynghorydd yn y Tîm Anabledd i gael cefnogaeth a chynghor.

Os ydych chi am gysylltu â ni, ☎ 01248 382034 / 382883 neu ✉ taimyfywrwyr@bangor.ac.uk neu galwch heibio i'r Swyddfa Tai Myfyrwyr Swyddfa Tai Myfyrwyr.

Cyn i chi adael am y Pasg:

- Gwiriwch
- Clowch
- Gadewch

Diogelu eich tŷ

Cofiwch sicrhau bod pob un o'r ffenestri a'r drysau wedi eu cloi ac yn saff cyn gadael am wyliau'r Pasg, peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn gwneud hyn. Os oes gennych unrhyw beth gwerthfawr, cadwch nhw'n ddiogel allan o'r golwg.

Gwnewch yn siŵr bod y gwres wedi ei osod i ddod ymlaen yn rheolaidd, cofiwch fod gwres isel cyson yn well na chyfnodau byr o wres uchel, ac wrth gwrs gofalu fod digon o gredyd yn y mesurydd os oes gennych un.

Rhowch wybod i'ch landlord pryd y byddwch yn gadael a beth yr ydych chi yn bwriadu ei wneud gyda'r system wresogi.

Mwynhewch y gwyliau ac fe'ch gwelwn ar ôl y Pasg.

Wyt ti wedi talu blaendal? Ydi'r landlord wedi ei ddiogelu?

Am awgrymiadau a chyngor ar flaendaliadau, ewch i:

www.citizensadvice.org.uk/housing/renting-a-home/student-housing/students-in-private-rented-accommodation/student-housing-deposits/





Hoffech chi fod yn Arweinydd Cyfoed?

- A gawsoch chi arweinydd cyfoed da ac rydych eisiau gwneud yr un peth i rywun arall?
- A wnaeth eich arweinydd cyfoed eich siomi ac rydych yn teimlo y gallech chi wneud yn well?
- A ydych chi eisiau helpu myfyrwyr eraill i ymgartrefu a mwynhau Bangor?

Os ydych wedi ateb 'ydw' i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, pam na wnewch chi fod yn arweinydd cyfoed a helpu'r myfyrwyr newydd i ymgartrefu pan fyddant yn cyrraedd ym mis Medi?

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Kim Davies ar:

✉ peerguiding@bangor.ac.uk

☎ 01248 382072

👣 ymweld yn bersonol - Llawr 1af Rathbone

Cyflogadwyedd @ Bangor

Yn ystod eich amser yn y Brifysgol, byddwch yn cael pob math o brofiadau newydd fydd yn eich helpu i ddatblygu eich cyflogadwyedd. O fyw yn annibynnol a dysgu sgiliau newydd drwy eich cwrs, i gwblhau profiad gwaith ac ymuno a chymdeithasau, bydd y sgiliau a'r profiadau yma i gyd yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr!

Ym Mangor, gallwch gofnodi eich gweithgareddau allgyrsiol ar eich cyfrif cyflogadwyedd, sydd ar gael drwy [Fy Hwb Cyflogadwyedd](#) ar Fy Mangor. Mae'r gweithgareddau yma yn gallu cyfri tuag at Wobr Cyflogadwyedd Bangor, ac o bosib ar eich trawsgrifiad academaidd terfynol, yr HEAR.

Os ydych yn eich blwyddyn olaf, y dyddiad i gwblhau'r GCB a cofnodi gweithgareddau ar gyfer HEAR ydi 5yp, Mai 14eg, 2018.

Am fwy o wybodaeth, mae'r sesiwn nesaf yn cael ei gynnal dydd Mercher, Mawrth 7fed, 13:00-14:00 yn Alun A1:01 (yn y Ganolfan Rheolaeth).


Os oes gennych ymholiadau penodol hoffech eu trafod efo aelod o'r tîm, cewch wneud apwyntiad unigol drwy e-bostio cyflogadwyedd@bangor.ac.uk

Cofiwch, mae'r adnoddau ar yr hwb ar gael mewn sawl fformat, cysylltwch gyda ni os oes gennych anghenion penodol.



gcb bea
Gwobr Bangor
Cyflogadwyedd Employability
Bangor Award

Cyflwyno Jennie, Cyngorydd Myfyrwr Anabl Undeb Bangor 2017/18



Helo bawb!

Jennie Atherton ydw i a fi yw Cyngorydd Myfyrwr Anabl Undeb Bangor yn 2017/2018. Os nad ydych chi'n gwybod beth mae hynny'n ei olygu, rydw i'n mynychu cyfarfodydd y cyngor unwaith y mis gyda myfyrwyr etholedig eraill. Mae hyn yn golygu mai fi yw eich llais yn y cyfarfodydd hyn, ac rwyf wastad yn ceisio meddwl am bersbectif myfyrwr anabl pan fyddwn ni'n trafod syniadau.

Mae syniadau'n rhan fawr o sut mae Cyngor Undeb Bangor yn gweithio, gan ein bod yn pleidleisio ar y syniadau mwyaf poblogaidd gan fyfyrwyr ar wefan Undeb Bangor. Ar ôl bwrw pleidlais, mae'r swyddogion sabothol yn dechrau gweithio i weithredu'r newidiadau hynny. Maent wedi bod yn gweithio ar sawl syniad yn barod eleni, gan gynnwys darparu llaeth soia ac almon ym mhob un o fannau arlwy'o'r brifysgol. Does dim un syniad yn rhy fawr nac yn rhy fach, a byddem wrth ein boddau'n clywed rhagor o syniadau gan fyfyrwyr anabl, felly os oes gennych chi syniad da, gallwch ei gyflwyno yn [LINK](#)

Yn ogystal â'r cyfarfodydd a'r syniadau, rwyf hefyd yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr ar brojectau'n ymwneud ag anabledd a materion sy'n wynebu myfyrwr anabl. Yn 2018, rwyf wedi bod yn gweithio gyda phroject GOWales wrth iddyn nhw estyn allan at fyfyrwr anabl, ac rwyf wedi bod yn gweithio gyda Ruth Plant, Llywydd Undeb Bangor a Carolyn Donaldson-Hughes ar fideo am y gwasanaethau sydd ar gael i chi. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y projectau hyn, os hoffech gymryd rhan, neu awgrymu rhywbeth yr hoffech fy ngweld i yn gweithio arno, mae croeso i chi fy e-bostio ar cou874@bangor.ac.uk.

Rydw i yma i gynrychioli eich llais chi, felly mynnwch gael eich clywed!



Neges gan Helen Marchant, Is Lywydd Addysg



Helo bawb, gobeithio eich bod wedi cael dechrau gwych i semester dau. Yn Undeb Bangor, rydyn ni'n gweithio gyda chi trwy gydol y flwyddyn i sicrhau eich bod yn cael y profiad gorau posibl fel myfyriwr, felly os nad ydych wedi gwneud hynny eto, dewch i ddweud helo, rydym ar y 4ydd llawr yn Pontio!

Bydd Etholiadau Mawr Undeb y Myfyrwyr 2018 yn cael eu cynnal mewn dim o dro i ethol swyddogion sabothol er mwyn sicrhau newid. Mae modd pleidleisio rhwng 28 Chwefror a 2 Mawrth - dyma eich cyfle i ddweud eich dweud o ran pwy sy'n arwain Undeb y Myfyrwyr, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd rhan.

Ar y gweill hefyd mae'r Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, i ddatlu cyfraniad staff eithriadol yn y brifysgol. Os ydych chi o'r farn bod eich darlithydd neu'ch staff mewn unrhyw gategoriâu eraill yn wych, beth am ei enwebu yma: <https://www.undebbangor.com/voice/slt/> Cyhoeddir enwau'r enillwyr mewn seremoni fis Ebrill!

Un peth yr hoffwn sôn amdano yw ein project Cysylltu@Bangor - project yw hwn lle bydd gwirfoddolwyr yn gwneud ffrindiau â myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau wrth wneud gweithgareddau i fyfyrwyr neu sydd angen cymorth cyffredinol. Mae'r gwahanol weithgareddau sydd ar gael ym Mangor yn ffordd wych o wneud rhywbeth ar wahân i astudio, ac maent yn ffordd dda o gyfarfod â phobl eraill sydd ddim ar yr un cwrs â chi. Ond weithiau, gall rhoi cynnig ar rywbeth newydd wneud i chi deimlo'n anghyfforddus. Efallai y byddech yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ymuno â chlybiau, cymdeithasau, mynd i siopa, ymweld â'r meddyg, neu fynd i'r gampfa yng nghwmni rhywun arall. Mae gwirfoddolwyr Cysylltu@Bangor ar gael i dreulio amser gyda chi, i fod yn rhywun i siarad â nhw unwaith yr wythnos mewn siop goffi efallai, er mwyn gweld sut mae pethau'n mynd. Caiff unrhyw sgysiau eu trin yn gyfrinachol, a dim ond tîm Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor fydd yn gwybod eich bod wedi defnyddio'r gwasanaeth. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw e-bostio svbconnect@undebbangor.com a byddwn yn dechrau eich helpu chi i weithio tuag at wireddu eich amcanion personol CHI. Mae'n ffordd wych o gymryd rhan a chyfarfod ffrindiau newydd, heb unrhyw bwysau.

Diolch am ddarllen, a gobeithio y byddwn yn eich gweld ym Mangor!

Helen

UNDEB BANGOR
UNDEB MYFYRWYR STUDENTS UNION

www.UndebBangor.com/ConnectBangor
Meddwl y gallwn eich helpu chi? Cysylltwch â ni heddiw!
Think we can help you? Contact us today!

Trained Volunteers who are happy to help
Gwirfoddolwyr Hyfforddedig sy'n hapus i help

Be it through accompanying students to clubs and societies or just going for a coffee
Un ai bod o drwy fynd gyda myfyrwyr i seisynau clybiau a chymdeithasau neu fynd am goffi.

Befriend Students who face barriers in engaging with student life
Ffrindiau Myfyrwyr sy'n rhwystrau wyneb yn ymgysylltu â myfyriwr bywyd

CONNECT BANGOR

ConnectBangor
SVBconnect@UndebBangor.com

Neuaddau

#CARUNEUADDAU

**WEDI BYW YNO,
WRTH EICH BODD YNO
FELLY DEWCH YN ÔL**



*Neuaddau, nid
yn unig i'ch Blwyddyn
Gyntaf!*

**Dewch i fyw yn un
o'n pentrefi myfyrwyr
arobryn blwyddyn nesaf
Archebwch ar-lein nawr!**

WWW.BANGOR.AC.UK/FYSTAFELL

Yn agor 1^{af} Rhagfyr

**BLAENDAL 0
DIM OND £150**

FFLAT ARDDANGOS I'W WELD



Campws Byw



CEFNOGIR PYTHEFNOS MASNACH DEG GAN ADRAN GWASANAETHAU MASNACHOL PRIFYSGOL BANGOR

2018 PYTHEFNOS MASNACH DEG

26AIN O CHWEFROR - 11FED O FAWRTH



26ain o Chwefror - 10 fed o Fawrth - Stampiau dwbl ar ddiodydd poeth Masnach Deg gyda Yoyo @ Lleoliadau Bwyta Yfed Bangor

£15 oddi ar hwdi Masnach Deg @ Siop Ffriddoedd



28ain o Chwefror Cwis a chacen gyda te a choffi Masnach Deg @ 8yp | Braint a Barlows



1af o Fawrth Coctels Masnach Deg @ Bar Uno



2il o Fawrth Campws Byw - Bore siocled poeth Masnach Deg @ 8.30-9yb | Swyddfa neuaddau Ffridd a Santes Fair



4ydd o Fawrth Campws Byw - Rhaglen ddogfen a thrafodaeth canolbwyntio ar Fasnach Deg @ 8yp | Braint



5ed o Fawrth Campws Byw - Rhannu ffrwythau Masnach Deg @ 8.30-9.30yb | Swyddfa neuaddau Ffridd a Santes Fair



6ed o Fawrth Campws Byw - Dysgu coginio brownies Masnach Deg @ 7yp | Cegin Barlows



8fed o Fawrth Campws Byw - Melin drafod myfyrwyr Masnach Deg @ 1-2yp | Braint



Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd



Careers & Employability Service



**Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith**
**Achieve through
Work Experience**



- Ydych chi'n wynebu rhwystrau mewn perthynas ag anabledd?
- Oes gennych chi wahaniaeth dysgu penodol e.e. dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)?
- Gennych chi anhawster iechyd meddwl?

Hoffech chi gael help gyda dod o hyd i brofiad gwaith perthnasol er mwyn datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd? Ydych chi'n 24 oed neu iau? Os felly, mae'r Cynghorwyr Project GO Wales yma i helpu.

- Do you meet with disability related barriers?
- Do you have a specific learning difference eg dyslexia, dyspraxia, ADHD?
- Do you have a mental health difficulty?

Would you like help finding relevant work experience to develop your employability skills? Are you aged 24 or under? If yes, then the GO Wales Project Advisors are here to help you.



Raine Williams
Gweinyddwraig Prosiect
Project Administrator

Lis Owen
Rheolwr Prosiect
Project Manager

Jo Mitchell
Swyddog Prosiect
Project Officer

01248 388159
gowales@bangor.ac.uk
www.gowales.co.uk
Neuadd Rathbone



Cyflawni drwy Brofiad Gwaith
Achieve through Work Experience



Dyma rai dyfyniadau gan fyfyrwyr sydd ar leoliadau gwaith GO Wales ar hyn o bryd
Some quotes from students on currently on GO Wales work placements

“Fe wnaeth y blas ar waith yn Sw Mynydd Cymru fy helpu i ddeall sut beth yw bod mewn amgylchedd gweithio. Rydw i'n teimlo'n fwy hyderus siarad â phobl ac wrth ymwneud â chwsmeriaid”




Sw Mynydd Cymreig - Welsh Mountain Zoo
Bae Colwyn - Colwyn Bay

“The work taster at Welsh Mountain Zoo has helped me understand what it is like to be in a working environment. I am feeling more confident to speak to people and with customer interaction”

“Buaswn i'n argymhell rhoi cynnig ar GO Wales, ac ewch ati i roi cynnig ar gymaint o bethau ag y gellwch. Gall GO Wales eich helpu i reoli'ch gwaith fel nad oes pwysau”



“I would recommend to just give GO Wales a go and try as much as you can. GO Wales help you manage your work so there is no pressure”



Chris ar leoliad gyda GO Wales fel Cynorthwydd Oriol/ Amgueddfa yn Amgueddfa Storiel

Chris on placement with GO Wales as a Gallery/Museum Assistant at Storiel Museum

Fel Cynorthwydd Oriol/Amgueddfa yn Amgueddfa Storiel, mae Chris wedi gwneud nifer o dasgau, yn cynnwys ymdrin â'r cyhoedd a'u cynghori, cymryd ffotograffau cyhoeddusrwydd ar gyfer yr archifau ac at ddibenion cyfryngau cymdeithasol, a helpu i drefnu digwyddiadau a diweddarau taflenni a deunydd darllen. Mae Chris yn gobeithio gwneud gweithgareddau ymchwil i gynorthwyo'r amgueddfa gydag ychydig o'u gwybodaeth gyhoeddus.

As a Gallery/Museum Assistant at Storiel Museum, Chris has covered a variety of different tasks. These range from interacting with and advising the general public, taking publicity photographs for archiving and social media purposes, helping to set up events and updating leaflets and literature. Chris is hoping to carry out research activities to add to the museum's available public information.

RHIFAU RHADFON in wneud ymholiadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau



Department
for Work &
Pensions

Mynediad at Waith	0800 121 7479
Llinell Ymholiadau Budd-daliadau	0800 169 0310
Lwfans Byw i'r Anabl Oedolion a Phlant	0800 121 4600
Lwfans Byw i'r Anabl Motability	0800 121 6379
Desg Gymorth Ar-lein yr Adran Gwaith a Phensiynau	0800 169 0154
Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol	0800 121 8379
Llinell Ymholiadau'r Ganolfan Waith	0800 169 0190
Llinell Ymholiadau Lwfans Mamolaeth	0800 169 0283
Ymholiadau am Daliadau Annibyniaeth Personol	0800 121 4433
Llinell Ymholiadau'r Gronfa Gymdeithasol	0800 169 0140

Wythnos Ymwybyddiaeth Awtisiaeth - 26 Mawrth - 2 Ebrill

Pump o fy hoff ffeithiau am awtisiaeth




Mae Chris Rackham yn hoff o ffeithiau ac yn awtistig ac mae'n llysgennad ar ran Cymdeithas Genedlaethol Awtisiaeth


1. Mae Sathri Taniai, dyfeisiwr Pokemon yn awtistig



4. Mae cymaint o bobl awtistig yn y Deyrnas Unedig ag sydd o eiriau yn y pum llyfr Harry Potter cyntaf (700,000)



2. Roedd gan Mozart, Einstein a Syr Isaac Newton nodweddion awtistig ac mae'n debyg y byddent wedi cael diagnosis o awtisiaeth pe baent yn fyw heddiw.



5. Cynhelir Wythnos Ymwybyddiaeth Awtisiaeth y Byd rhwng 26 Mawrth a 2 Ebrill.

3. Mae gan 90% o bobl awtistig broblemau synhwyraidd. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael profiad dwys iawn o'r byd a'i bethau, ond weithiau bydd pethau'n rhy lachar, yn rhy uchel ac yn rhy ddrislyd i ni.



autism.org.uk/waaw

NSS

Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr
National Student Survey



FYFRWYR BLWYDDYN OLAF:
MAE'R CWBL YN EICH CYLCH CHI!

YN YSTOD EICH CYFNOD YM MANGOR, RYDYCH WEDI DYSGU LLAWER, FELLY BETH FYDDWCH CHI'N EI ADAEL AR OI?

Cymerwch
ran a gallech
ennill un
o 5 pecyn
graddio*

Take part and
you could
win one of 5
graduation
packages*



FINALISTS: IT'S ALL ABOUT YOU!

DURING YOUR TIME AT BANGOR YOU'VE LEARNED A LOT, NOW WHAT WILL YOU LEAVE BEHIND?

Rhannwch eich barn yn / Share your views at:

www.thestudentsurvey.com

*TERMAU / TERMS: WWW.BANGOR.AC.UK/STUDENTENGAGEMENT



Gwasanaethau Myfyrwyr

Student Services



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

- Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd
- Sgiliau Astudio
- Cymorth Myfyrwyr
 - Arweinwyr Cyfoed
 - Tai Myfyrwyr
 - Cymorth Ariannol
 - Iechyd Myfyrwyr
 - Newid/Gadael Eich Cwrs
- Gwasanaethau Anabledd
 - Canolfan Asesu
 - Tîm Anabledd
 - Tîm Dyslecsia
 - Cynghorwyr Iechyd Meddwl
- Cynghori Myfyrwyr
- Darpariaeth Ffydd

- Careers and Employability
- Study Skills
- Student Support
 - Peer Guiding
 - Student Housing
 - Money Support
 - Student Health
 - Changing/Leaving Your Course
- Disability Services
 - Assessment Centre
 - Disability Team
 - Dyslexia Team
 - Mental Health Advisers
- Counselling Service
- Faith Provision

www.bangor.ac.uk/student-services
gwasanaethaumyfywrwyr@bangor.ac.uk
studentservices@bangor.ac.uk
01248 382024
Neuadd Rathbone, College Road



Ein Manylion Cyswllt

Pennaeth Gwasanaethau Anabledd

Carolyn Donaldson-Hughes,

✉ gwasaethanabledd@bangor.ac.uk

Rheolwr Tîm Dyslecsia

Jane Jones

✉ pss204@bangor.ac.uk

Uwch Gynghorwr Anabledd

Esther Griffiths

Cynghorwyr Anabledd Myfyrwyr

Ruth Coppell / Steph Horne

✉ cynghorwrabledd@bangor.ac.uk

Cynghorwyr Iechyd Meddwl

Fiona Rickard / Cheryl Parkinson /

Fiona Hill

✉ cynghorwriechydmeddwl@bangor.ac.uk

Cynghorwyr ADP

Andrea Reynolds / Rafaela Williams

✉ cynghorwrdyslecsia@bangor.ac.uk

Dylan Griffiths

Rheolwr Gwasanaeth Asesu

Asesu Anghenion Astudio

✉ canolfan_access@bangor.ac.uk

Asesu Diagnostic

✉ assessment@bangor.ac.uk

Cydlynnydd Cymorth Anfeddygol

Christine Roberts

✉ gwaithefnogi@bangor.ac.uk

Gweinyddwr

Tracey Morris

✉ gwasaethanabledd@bangor.ac.uk

Cynorthwydd Gweinyddol

Gemma Watts

✉ gwasaethanabledd@bangor.ac.uk

☎ Gemma neu Tracey ar 01248 383620 / 382032 neu ✉ gwasaethanabledd@bangor.ac.uk i wneud apwyntiad.

Am fanylion am y gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Anabledd ewch at

<http://www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr/anabledd>

I wneud apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Cynghori, ☎ Helen ar 01248 388520 neu

✉ cynghori@bangor.ac.uk

Cymeradwywyd gan y Corff Achredu Matrix

